

Bancio ar-lein

Pam bancio ar-lein?

Diwedd y gân yw'r geiniog ond nid yw ymweld â'r banc bob amser yn brofiad syml na chyflym.

Yma, byddwn yn eich cyflwyno i fancio ar-lein, a elwir hefyd yn fancio rhyngwrdd: ffordd llawer mwy cyfleus o reoli arian, a allai arbed llawer o amser i chi.

Gallai trin a thrafod eu harian ar-lein ymddangos yn gymhleth, ond mae miliynau o bobl yn defnyddio bancio ar-lein bob dydd, a hynny'n ddiogel.

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i fynd i'r afael â'r hanfodion.

*Gall cyfarwyddiadau amrywio yn ôl model eich dyfais.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu?

1. sut i ddechrau bancio ar-lein
2. Sut i olrhain eich arian
3. Sut i wneud taliadau
4. Sut i gadw'n ddiogel wrth fancio ar-lein

Dechrau bancio ar-lein

Mae llawer o fanciau a chwmnïau ariannol eraill yn caniatáu i chi reoli eich arian ar-lein drwy eu gwefannau.

Mae gan rai wasanaethau hefyd sy'n gweithio ar eich llechen neu ffôn symudol drwy apiau. Am ragor o wybodaeth am lawrlwytho apiau, darllenwch ein dalen ffeithiau ar y pwnc drwy glicio ar y ddolen hon neu ei deipio i mewn i'ch porwr gwe: bt.com/seniorskills

Manteision bancio ar-lein:

- **Chi sydd â'r pŵer:** gyda bancio ar-lein, gallwch wirio balans eich cyfrif, talu ffrindiau neu gwmnïau, trefnu debydau uniongyrchol, talu sieciau i mewn a mwy.
- **Mae'n gyfleus:** gyda bancio ar-lein, gallwch reoli eich arian 24/7, ac o unrhyw le sydd â chysylltiad â'r rhyngwrdd.
- **Gwobrau ychwanegol:** yn dibynnu ar gyda phwy yr ydych yn bancio, gall defnyddio bancio ar-lein ddatgloi cyfraddau arbennig a chynigion fel arian yn ôl neu ddisgownt mewn archfarchnadoedd a siopau.

- **Mae'n fwy diogel:** mae pobl sy'n defnyddio bancio ar-lein yn aml yn gwirio eu cyfrif banc yn fwy aml, am ei fod yn gyfleus, cyflym a diogel. Mae hyn yn golygu y gallwch sylwi ar unrhyw broblemau yn gyflym a chadw golwg ar eich sefyllfa ariannol.

Mae cofrestru ar gyfer bancio ar-lein yn syml iawn. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw mynediad i'r rhyngwrdd a chyfrif gyda banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd. Er y gallai'r dull cofrestru amrywio ym mhob banc, mae'n broses hawdd iawn.

I weld beth sydd ei angen arnoch i gofrestru ar gyfer bancio ar-lein, ewch i ddolen 'Sign up to online banking' eich banc ar eu gwefan.

Cadw'n ddiogel: Wrth chwilio am y wybodaeth hon, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio gwefan swyddogol eich banc – i wneud hyn, bydd angen i chi sicrhau bod y cyfeiriad gwefan yn dechrau gyda 'https' a bod y symbol clo-clap  yn y bar cyfeiriad.

Bancio ar-lein parhad

Cofrestru

Cam un: Bydd angen i chi gyflwyno eich manylion personol. Bydd hyn yn cynnwys eich enw, dyddiad geni, cod post a manylion eich cyfrif.

Bydd angen i chi wybod y manylion am y math o gyfrif, cod didoli a rhif eich cyfrif. Mae'r canlynol yn wahanol fathau o gyfrifon banc yn y DU:

- Cyfrifon cyfredol
- Cyfrifon cynilion
- Cyfrifon banc pecyn
- Cyfrifon banc ar y cyd

Cyngor diogelwch: Os ydych yn defnyddio cyfrifiadur mewn lle cyhoeddus unrhyw bryd ar gyfer bancio ar-lein, mae angen i chi wneud yn siŵr na all unrhyw un weld eich sgrin a beth rydych yn ei deipio a gwneud yn siŵr eich bod yn clicio i'r cyfrifiadur BEIDIO cofio eich manylion (fel arfer mae hyn yn flwch y gallwch roi tic/tynnu tic ar wefan mewngofnodi'r wefan).

Cam dau: Mae'n amser dewis enw defnyddiwr (a elwir hefyd yn ddull adnabod defnyddiwr), a chyfrinair. Y rhain yw'r manylion mewngofnodi i'w defnyddio bob tro y byddwch yn bancio ar-lein.

Mae'n bwysig eich bod yn dewis cyfrinair sy'n hawdd i chi ei gofio, ond sy'n anodd i unrhyw un ei ddyfalu. I wneud hyn ceisiwch greu cyfrinair hir, gan osgoi manylion personol fel pen-blwyddi ac yn y blaen, a sicrhau ei fod yn cynnwys amrywiaeth o nodau bysellfwrdd – er enghraifft priflythren, rhif a nod arbennig.

Cyngor diogelwch: Dylech gadw eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair i chi eich hun bob amser – os bydd unrhyw un arall yn gwybod y manylion hyn, gallant eu defnyddio i gael mynediad i'ch cyfrif banc.

Gwybodaeth gofiadwy

Mae rhai banciau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i chi nodi 'gwybodaeth gofiadwy' ar gyfer gwiriadau diogelwch yn y dyfodol. Weithiau gall banciau ofyn am fanylion mewngofnodi ychwanegol fel cod pasio, y bydd eich banc yn ei anfon atoch mewn llythyr drwy'r post. Os nad oes gennych chi hyn, bydd angen i chi gysylltu â'ch banc dros y ffôn a bydd y banc yn anfon llythyr arall yn cynnwys y cod.

Gwiriad adnabod

Gyda'r manylion mewngofnodi wedi'u cadarnhau, bydd angen i'ch banc wirio pwy ydych chi. I wneud hyn, fel arfer byddant yn eich ffonio ar y rhif ffôn a roddwyd gennych pan wnaethoch agor eich cyfrif (mae'n hollbwysig rhoi gwybod i'w banc os byddwch yn newid eich rhif ffôn).

Bydd y galwr o'r banc yn rhoi cyfarwyddiadau clir i chi ar sut i gwblhau'r cam hwn o'r cofrestrriad. Efallai y byddant yn gofyn cwestiynau i chi am eich manylion personol.

Noder, nid yw pob banc yn gwirio hunaniaeth dros y ffôn – efallai y bydd rhai yn cysylltu â chi drwy e-bost neu'r post yn lle hynny (byddant yn cadarnhau hyn yn y broses cofrestru ar-lein).

Cwblhau'r cofrestrriad

Ar ôl cwblhau'r cam adnabod, dylai eich cofrestrriad fod yn gyflawn erbyn hyn. Nawr gallwch fewngofnodi i'ch gwasanaeth bancio ar-lein am y tro cyntaf.

Nodweddion bancio ar-lein:

Gyda'r cyfrif wedi'i greu, dyma rai o'r gwasanaethau allweddol sydd ar gael:

Gwirio eich balans

1. Ar ôl mewngofnodi i fancio ar-lein, dylai eich balans banc gael ei arddangos gyda manylion eich cyfrif ar y dudalen gyntaf.
2. Mae'n debygol y bydd eich balans banc yn cael ei arddangos mewn dwy ffordd – presennol ac ar gael.
 - Bydd eich "balans presennol neu gyfrif" yn cael eu harddangos – bydd hyn yn dangos faint o arian sydd yn eich cyfrif ar yr amser hwnnw.
 - Y balans ar gael yw faint o arian sydd ar gael i chi ei wario mewn gwirionedd, gan gynnwys unrhyw orddrafft neu daliadau i'w didynnu sydd eisoes wedi'u didynnu o'r balans.
3. Yn aml gall y balans sydd ar gael i chi fod yn uwch neu'n is na'ch balans presennol/cyfrif. Gallai hyn fod oherwydd bod taliad i'w ddidynnu neu os oes gennych orddrafft yn ychwanegol at yr arian yn eich cyfrif.

Bancio ar-lein parhad

Gwneud taliad

1. Ar eich gwefan neu apiau bancio ar-lein, bydd yr opsiwn i wneud taliad. Cliciwch ar hwn..



2. Os ydych wedi talu'r person neu'r cwmni o'r blaen, bydd manylion y person wedi'u cadw yn yr adran hon. Os ydych chi'n eu talu am y tro cyntaf, bydd angen i chi eu cofrestru fel derbynnydd neu dalai newydd.
3. Os yw'n dderbynnydd newydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen ddigidol gyda'u manylion. Bydd y manylion hyn yn cynnwys; enw, cod didoli a rhif cyfrif.
4. Bydd angen i chi hefyd gadarnhau swm y taliad, dyddiad y taliad a'r rheswm dros y taliad (y cyfeirnod).
5. Ar ôl ychwanegu'r manylion talu, gallai fod angen i chi ddilyn proses ddiogelwch. Bydd hyn yn amrywio o fanc i fanc. Efallai y gellir gwneud hyn drwy alwad ffôn neu drwy god a anfonir i'ch ffôn.
6. Bydd rhai banciau yn gofyn i chi ddefnyddio darlennydd cardiau ar gyfer sefydlu derbynnydd newydd. Anfonir darlennydd cardiau a chyfarwyddiadau ar sut i'w ddefnyddio pan fyddwch yn sefydlu bancio rhyngwyd. Noder: bydd eich banc yn cadarnhau pa ddulliau diogelwch y maent yn eu defnyddio.
7. Ar ôl cwblhau'r gwiriadau diogelwch, anfonir cadarnhad atoch o'r taliad.

Trosglwyddo arian

I'r rhai ohonoch â mwy nac un cyfrif banc, gallwch ddefnyddio bancio ar-lein i symud arian yn gyflym rhyngddynt. Bydd hyn fel arfer wrth ymyl yr opsiwn talu.

Gweld cyfriflenni

Yn union fel y copïau argraffedig y byddwch wedi'u derbyn yn y gorffennol, gallwch gael mynediad at gyfriflenni banc cyfredol a blaenorol trwy fancio ar-lein. Mae rhai banciau hefyd yn cynnig y gallu i chwilio mewn cyfriflenni am daliadau blaenorol a wnaed, er enghraifft, os ydych eisiau gwirio bod y swm a dalwyd yn gywir.

Diweddaru eich manylion

Bydd pob system bancio ar-lein yn caniatáu i chi newid eich manylion cyswllt yn rhywdd ac unrhyw amser.

Gwybodaeth ychwanegol

Allgofnodi:

Am resymau diogelwch, bydd eich sesiwn bancio yn 'amseru allan' yn awtomatig os na fydd unrhyw weithgarwch wedi'i wneud am ychydig funudau (efallai y gallwch bennu hyd y cyfnod hwn).

Fodd bynnag, nid yw amseru allan yr un peth ag allgofnodi. I fod yn ddiogel, bydd angen i chi allgofnodi o'ch bancio ar-lein hefyd ar ôl i chi orffen.

Byddwch yn ymwybodol o sgamiau:

Dylech fod yn ymwybodol, er y bydd angen i chi eu darparu i greu eich cyfrif, ni fydd eich banc byth yn gofyn i chi am wybodaeth gofiadwy fel eich manylion mewngofnodi ar ôl hyn, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy e-bost neu dros y ffôn.

Os bydd rhywun yn dweud eu bod yn dod o'ch banc ond eu bod yn gofyn i chi am y manylion hyn, peidiwch ymateb. Gallwch bob amser ffonio eich banc eich hun i gadarnhau.

Wrth ffonio eich banc, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r rhif ffôn swyddogol - bydd hyn ar eich bil, cefn eich cerdyn credyd/debyd neu ar wefan swyddogol y banc.

Os ydych yn parhau i fod yn ansicr, gallwch ymweld â'ch cangen mewn person i gael cymorth. Fodd bynnag, noder nad oes gan bob banc yn y DU gangenhau.



Cynghorion ac awgrymiadau ar gyfer dysgu pellach

Am gyngor ar sut i osgoi sgamiau, gallwch ymweld a'n taflen wybodaeth drwy glicio ar y ddolen ganlynol neu ei deipio yn eich porwr gwe: bt.com/seniorskills

Mae gan y gwefannau canlynol lawer o adnoddau defnyddiol hefyd ar fancio a sgamiau ar-lein. Unwaith eto, gallwch glichio ar y ddolen neu ei deipio yn eich porwr gwe:

Cyflwyniad i fancio ar-lein: www.digitalunite.com/government-services-shopping-banking/managing-bills-online/introduction-online-banking

Rheoli arian ar-lein: <https://new.learnmyway.com/explore-all-subjects/managing-your-money-online>

Sgamiau rhyngwyd a sut i'w hosgoi: <https://abilitynet.org.uk/factsheets/internet-scams-and-how-avoid-them>